

Canllaw i gael Taliadau Uniongyrchol gan Gyngor Sir y Fflint

Fersiwn Hawdd ei Darllen

Tachwedd 2019

Beth yw Taliadau Uniongyrchol?



Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffordd i chi gael y cymorth sydd ei angen arnoch chi

Byddwch yn cael arian gan Gyngor Sir y Fflint i helpu talu am y cymorth sydd ei angen arnoch chi i fyw eich bywyd yn y ffordd rydych yn dewis.



Chi sy'n dewis pwy sy'n eich cynorthwyo chi, a sut a phryd y byddant yn eich cynorthwyo chi – Chi sy'n penderfynu

Alla i gael Taliad Uniongyrchol?



Efallai y gallwch chi gael Taliad Uniongyrchol os:

- Ydych chi dros 16
- Ydych eisoes yn cael cymorth gan Gyngor Sir y Fflint
- Yw Cyngor Sir y Fflint yn cytuno bod angen cymorth cyflogedig arnoch chi
- Ydych chi'n rhiant ar blentyn anabl sydd angen cymorth cyflogedig
- Ydych chi'n Ofalwr di-dâl

Ar gyfer beth alla i ddefnyddio fy Nhaliad Uniongyrchol?



Gallwch ddefnyddio'ch Taliad Uniongyrchol i dalu am y cymorth sydd ei angen arnoch i fyw bywyd da. Gallech ddewis:

- Talu asiantaeth ofal o'ch dewis chi
- Cyflogi staff o'ch dewis chi
- Trefnu eich gofal seibiant eich hun i roi seibiant i chi neu eich gofalwr
- Prynu offer sy'n eich helpu i fyw eich bywyd
- Trefnu eich cyfleoedd dydd eich hun yn hytrach na mynd i ganolfan ddydd.
- Cyfuno eich taliad uniongyrchol gyda phobl eraill i wneud i'ch arian fynd ymhellach

Cymysgedd o'r holl bethau yma

Sut alla i gael Taliadau Uniongyrchol?



Siaradwch â'ch gweithiwr cymdeithasol, gan y byddant yn gallu eich helpu i weld pa gymorth sydd ei angen arnoch.

Byddant yn esbonio sut y bydd Taliadau Uniongyrchol yn gweithio a beth ddylech chi ei wneud nesaf.



Os nad ydych wedi cael asesiad o'r blaen, mae angen i Gyngor Sir y Fflint wneud hyn cyn y gallwch gael Taliadau Uniongyrchol.

Asesiad yw gwiriad i weld beth sydd ei angen arnoch.



Gallech hefyd siarad â rhywun arall rydych yn ymddiried ynddo a gofyn iddynt am gymorth.

Sut all Taliadau Uniongyrchol fy helpu i?

Gallwch fod yn fwy annibynnol a gallwch gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eich hun.

Gallwch gael rheolaeth yn eich bywyd.



Chi yw'r un sy'n gwneud y penderfyniadau. Chi sy'n gyfrifol.

Mae gennych fwy o ddewis.



Chi sy'n penderfynu pwy sy'n rhoi'r cymorth sydd ei angen arnoch chi.

Gall y rhan fwyaf o bobl elwa o gael taliadau uniongyrchol gyda'r cymorth iawn.


A yw Taliadau Uniongyrchol yn iawn i mi?



Mae angen i chi feddwl am yr hyn rydych am ei wneud yn eich bywyd. Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffordd dda o roi rheolaeth i chi dros eich bywyd eich hun.



- Gallwch ddewis pa gymorth sydd ei angen arnoch
- Pryd fyddwch chi'n defnyddio eich cymorth
- Gan bwy rydych yn cael cymorth



Rydych chi'n gwneud y dewisiadau cywir i chi, yn hytrach na gadael i'r gwasanaethau cymdeithasol wneud yr holl benderfyniadau hyn.



Mae'n bwysig bod gennych wybodaeth dda ac amser i feddwl am bethau cyn i chi benderfynu os ydych am gael Taliad Uniongyrchol. Mae angen i chi feddwl am yr hyn fyddai Taliadau Uniongyrchol yn ei olygu i'ch bywyd bob dydd.

Mae'n syniad da i siarad â phobl eraill sy'n gwybod am Taliadau Uniongyrchol. Gallwch siarad â:

- Arbenigwr Taliadau Uniongyrchol o'r cyngor
- Eich teulu a'ch ffrindiau:
- Pobl sy'n cael Taliadau Uniongyrchol
- Eiriolwr neu eich grŵp Eiriolaeth lleol
- Eich Cydlynnydd Gofal neu Weithiwr Cymdeithasol
- Ymddiriedolaeth Penderels



Beth sy'n rhaid i chi ei wneud i drefnu Taliad Uniongyrchol?



Os byddwch yn penderfynu cael Taliadau Uniongyrchol mae pethau sydd angen i chi eu gwneud. Nid oes rhaid i chi wneud hyn ar eich pen eich hun. Gall rhywun eich helpu chi Bydd angen i chi:

- Ddewis sut rydych am wario eich Taliad Uniongyrchol a chytuno ar hyn gyda'r cyngor.
- Cytuno sut hoffech chi i'ch taliad uniongyrchol gael ei rheoli

Pa help allwch ei gael ar gyfer Taliadau Uniongyrchol?

Os byddwch chi'n penderfynu cael Taliadau Uniongyrchol nid oes rhaid i chi wneud popeth eich hun. Gallwch dderbyn llawer o gymorth a chefnogaeth.



Byddwch yn dal i fod â rheolaeth, hyd yn oed os byddwch yn cael cymorth.

Gall Ymddiriedolaeth Penderels eich cefnogi gyda'ch Taliad Uniongyrchol am gyhyd ag y byddwch angen iddynt wneud.

Gallant roi cyngor i chi ynglŷn â:



- Byw yn fwy annibynnol
- Beth mae Taliadau Uniongyrchol yn ymwneud ag o
- Sut i ddeall pa gymorth sydd ei angen arnoch
- Yr Aseiad Gofal Cymdeithasol
- Sut i drefnu eich cymorth
- Rheoli eich taliad uniongyrchol
- Cyflogi staff



Gallant hefyd roi cymorth ymarferol i chi, fel

- Dod o hyd i bobl i roi cymorth i chi
- Help i dalu cyflogau eich cymhorthwyr (gwasanaethau cyflog)
- Helpu sefydlu gwasanaethau gydag asiantaeth
- Ateb eich cwestiynau
- Eich helpu i fod yn gyflogwr



Ar beth alla i wario fy Nhaliad Uniongyrchol?



Rhaid i chi ddefnyddio'r arian i brynu'r cymorth y mae'r Cyngor yn cytuno sydd ei angen arnoch.

Dyma rai o'r pethau y gallwch chi eu prynu

- Cymorth gyda phethau personol fel cael bath neu wisgo amdanoch
- Cymorth i fyw yn eich cartref eich hun fel coginio, glanhau neu helpu i ofalu am eich arian
- Offer i'ch helpu i fyw'n fwy annibynnol
- Cefnogaeth i'ch helpu chi i wneud pethau yn y dydd yn hytrach na mynd i Ganolfan Ddydd
- Cymorth i fynd i'r gwaith neu'r coleg
- Cymorth ar gyfer gweithgareddau hamdden neu i fynd ar wyliau
- Cyfuno'ch arian gyda phobl eraill i wneud pethau na fyddech chi'n gallu eu gwneud ar eich pen eich hun.
- Bydd y cyngor ac Ymddiriedolaeth Penderels yn eich cefnogi i gyflawni eich anghenion cymorth yn greadigol.

Pa bethau nad wyf yn cael gwario fy Nhaliadau Uniongyrchol arnynt?



- Ni chewch ddefnyddio'r arian i brynu gwasanaethau iechyd fel meddyginiaeth neu ofal nyrsio.
- Ni allwch ddefnyddio'r arian i dalu am bethau y mae'n rhaid i bob un ohonom dalu amdanynt, fel bwyd, ffioedd mynediad neu gostau byw.



- Ni allwch ddefnyddio'r arian i dalu biliau eich cartref.

A fydd Taliadau Uniongyrchol yn effeithio ar arian arall sydd gennych?



Ni fydd cael Taliad Uniongyrchol yn effeithio ar eich budd-daliadau.

Newid eich meddwl



Os byddwch yn penderfynu nad ydych am barhau i gael Taliadau Uniongyrchol, bydd y Cyngor trefnu'ch gwasanaethau yn lle hynny.



Os yw'r Cyngor yn credu nad ydych yn rheoli'ch Taliadau Uniongyrchol byddant yn siarad â chi a'ch cynrychiolwyr am hyn.

Efallai y byddant yn trefnu mwy o gymorth i reoli eich taliad uniongyrchol neu newid y modd y mae eich taliad uniongyrchol yn cael ei dalu. Bydd y cyngor bob amser yn ceisio eich helpu i gadw rheolaeth ar eich bywyd.

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?



I wybod mwy am Daliadau Uniongyrchol holwch eich Gweithiwr Cymdeithasol neu'r person yn y cyngor sydd fel arfer yn eich helpu.

Enw: _____



Neu, gallech holi:

Mark Cooper

Ffôn: 01352 701101

E-bost: mark.cooper@flintshire.gov.uk



Gallech hefyd holi'r Asiantaeth Gymorth Taliadau Uniongyrchol lleol.

Ymddiriedolaeth Penderels

St Andrews Park

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint



Ffôn: 01352 706235

e-bost: flintshire@pendereelstrust.org.uk



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

Cyf: A12ER